**Sleid PowerPoint 6 (wedi'i gwblhau)**

Mae ymchwil yn dangos:

- bod y bwlch rhwng cyflawniad plant dan anfantais o gymharu â phlant breintiedig yn bresennol yn **naw** mis oed ac yn sylweddol erbyn **tair** blwydd oed. Pan fydd plant dan anfantais yn mynd i mewn i'r ysgol, byddant yn aml **flwyddyn** y tu ôl i'w cyfoedion mwy breintiedig yn y dosbarth.

Mae ymchwil yn dweud wrthym hefyd fod disgyblion dan anfantais yn fwy tebygol o wneud yn dda os yw'r unigolyn ifanc:

- yn credu yn ei allu/gallu ei hun yn yr ysgol;
- yn cael ei gefnogi/chefnogi gan ymgysylltiad ei rieni/rhieni yn ei addysg/haddysg;
- yn gweld bod yr ysgol yn fuddiol; ac
- nid yw'n dioddef bwlio.

**Sleid PowerPoint 7**

Mae blaenoriaethau presennol yr ysgol ar gyfer mynd i'r afael ag anfantais yn cynnwys:

- …
- …
- …
- …

*(Dylech gwblhau'r sleid hon gyda gwybodaeth a gymerwyd o gynllun gwella'r ysgol.)*

# HYRWYDDO ARFER DDA WRTH FYND I’R AFAEL Â THLODI AC ANFANTAIS

## Beth rydym ni’n ei wybod am ddisgyblion dan anfantais?

### Holiadur i staff

Defnyddiwch Ran un o’r holiadur hwn cyn yr hyfforddiant i ganfod faint ydych chi’n ei ddeall am effeithiau tlodi ac anfantais ar ddisgyblion. Dylech lenwi rhan dau yr holiadur ar ôl yr hyfforddiant.

**Rhan Un: Ticiwch y blwch sy’n adlewyrchu i ba raddau rydych yn cytuno â’r datganiadau.**

| | Cytuno’n Gryf | Cytuno | Cytuno weithiau | Ddim yn cytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gen i ddealltwriaeth glir o’r cysylltiad rhwng tlodi a lefelau cyflawniad addysgol isel disgyblion. | | | | | |
| Mae disgyblion dan anfantais yn cynnwys grwpiau gwahanol o ddisgyblion, fel y rhai sy’n cael prydau ysgol am ddim, y rhai o grwpiau lleiafrifol, y rhai mewn teuluoedd ar incwm isel, plant sy’n derbyn gofal a phlant teithwyr. | | | | | |
| Rwy’n deall y gwahaniaeth rhwng disgyblion dan anfantais a disgyblion sy’n tangyflawni. | | | | | |
| Rwy’n gwybod sut i nodi disgyblion dan anfantais yn fy nosbarth. | | | | | |
| Rwy’n gwybod pa mor dda y mae disgyblion dan anfantais yn cyflawni yn fy nosbarth o gymharu â’u cyfoedion nad ydynt dan anfantais. | | | | | |
| Rwy’n gwybod pa mor dda y mae disgyblion dan anfantais yn cyflawni yn ein hysgol o gymharu â disgyblion dan anfantais mewn ysgolion eraill. | | | | | |
| Rwy’n deall dylanwad disgwyliadau isel, hunan-barch isel a dyheadau isel ar ddisgyblion dan anfantais. | | | | | |
| Rwy’n gwybod gwerth dysgu y tu allan i oriau i godi safonau disgyblion dan anfantais a gwella eu lles. | | | | | |
| Rwy’n deall pwysigrwydd gweithio gyda theuluoedd, y gymuned a gwasanaethau i gynorthwyo disgyblion dan anfantais. | | | | | |
| Byddaf yn arfarnu’n rheolaidd y strategaethau rwy’n eu defnyddio i wella cyflawniad a dyheadau disgyblion dan anfantais, ac yn rhannu fy nghanfyddiadau gyda rhai eraill. | | | | | |

**Rhan Dau (i'w llenwi ar ôl rhan gyntaf yr hyfforddiant)**
**Ticiwch y blwch sy'n adlewyrchu i ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiadau.**

| | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Cytuno weithiau** | **Ddim yn cytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gen i ddealltwriaeth glir o'r cysylltiad rhwng tlodi a lefelau cyflawniad addysgol isel disgyblion. | | | | | |
| Mae disgyblion dan anfantais yn cynnwys grwpiau gwahanol o ddisgyblion, fel y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim, y rhai o grwpiau lleiafrifol, y rhai mewn teuluoedd ar incwm isel, plant sy'n derbyn gofal a phlant teithwyr. | | | | | |
| Rwy'n deall y gwahaniaeth rhwng disgyblion dan anfantais a disgyblion sy'n tangyflawni. | | | | | |
| Rwy'n gwybod sut i nodi disgyblion dan anfantais yn fy nosbarth. | | | | | |
| Rwy'n gwybod pa mor dda y mae disgyblion dan anfantais yn cyflawni yn ein hysgol o gymharu â disgyblion dan anfantais mewn ysgolion eraill. | | | | | |
| Rwy'n deall dylanwad disgwyliadau isel, hunan-barch isel a dyheadau isel ar ddisgyblion dan anfantais. | | | | | |
| Rwy'n gwybod gwerth dysgu y tu allan i oriau i godi safonau disgyblion dan anfantais a gwella eu lles. | | | | | |
| Rwy'n deall pwysigrwydd gweithio gyda theuluoedd, y gymuned a gwasanaethau i gynorthwyo disgyblion dan anfantais. | | | | | |
| Byddaf yn arfarnu'n rheolaidd y strategaethau rwy'n eu defnyddio i wella cyflawniad a dyheadau disgyblion dan anfantais, ac yn rhannu fy nghanfyddiadau gyda rhai eraill. | | | | | |

# Grŵp 1: Nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion dan anfantais

## Astudiaeth achos 2: 'Prosiect Awyr Las' yng nghlwstwr Dyffryn Aman yn Sir Gaerfyrddin

### Cyd-destun

Mae disgyblion o'r clwstwr o ysgolion cynradd yn Nyffryn Aman yn symud ymlaen i'w cyfnod dysgu nesaf yn 11 mlwydd oed pan fyddant yn dechrau yn Ysgol Gyfun Dyffryn Aman. Mae pob un o'r ysgolion cynradd yn y clwstwr yn darparu addysg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn bennaf.

### Strategaeth

Mae'r cydlynydd ar gyfer y disgyblion mwy abl a dawnus yn yr ysgol uwchradd yn arwain prosiect i rannu gwybodaeth a darparu rhaglen o weithgareddau heriol ar gyfer disgyblion. Cynorthwyir y cydlynydd gan staff o'r ysgolion cynradd a darparwyr arbenigol.

### Gweithredu

Yn ystod tymor yr haf bob blwyddyn, mae pob ysgol gynradd yn y clwstwr yn defnyddio profion safonol, arsylwadau athrawon a thrafodaethau staff i nodi'r 10% mwyaf abl o'i disgyblion ym Mlwyddyn 5, a allai gynnwys disgyblion dan anfantais. Mae'r disgyblion ym Mlwyddyn 6 a Blwyddyn 7 yn cymryd rhan mewn rhaglen o weithgareddau heriol, sy'n cynnwys adeiladu tîm, datblygu medrau arweinyddiaeth, ymchwiliadau mathemategol, gweithdai drama ac ymweliad preswyl. Nod pob un ohonynt yw gwella medrau meddwl beirniadol a medrau dysgu lefel uwch y disgyblion mwy abl, ac annog datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol hefyd.

Mae athrawon yn sicrhau cefnogaeth y rhieni trwy gyfathrebu da trwy lythyr a chyswllt personol. Caiff llwyddiant y prosiect ei fonitro trwy holiaduron disgyblion a dadansoddi profion medrau safonol ym Mlwyddyn 7. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion trwy gydol yr ysgolion cynradd ac i mewn i'r ysgol uwchradd gan ddefnyddio'r un system codau lliw.

### Deilliannau

Mae perthnasoedd cadarnhaol a chadarn iawn rhwng yr ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd yn y clwstwr. Ceir cysondeb rhwng yr ysgolion cynradd o ran y modd y maent yn nodi disgyblion mwy abl a dawnus, yn ogystal â defnydd cyson o system olrhain electronig gytûn gan bob ysgol, sy'n golygu bod modd trosglwyddo data a monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, bu gwelliant ym medrau dysgu'r disgyblion, yn enwedig llefaredd, gwrando a meddwl. Mae disgyblion hefyd wedi datblygu eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol ac maent yn ymdopi'n dda â throsglwyddo. Mae data'n cael ei drosglwyddo'n effeithiol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, gan roi gwybodaeth gywir i athrawon. Mae'r wybodaeth hon yn eu helpu i sefydlu disgwyliadau uchel o ddisgyblion mwy abl a dawnus.

## Grŵp 3: Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned

### Astudiaeth achos 2: Effaith partneriaeth rhwng ysgol gynradd a chartref gofal preswyl i'r henoed

### Cyd-destun

Ysgol gymuned ar gyrion Aberdâr yw Ysgol Gynradd Blaengwawr. Mae gan oddeutu 34% o'i disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Creu cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a chartref gofal preswyl i'r henoed oedd y nod ar ôl i breswylwyr fynegi pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol ger eu cartref. Gwnaethant hyn drwy gynllunio prosiect ar y cyd.

### Gweithredu

Mae disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn gweithio gyda'r preswylwyr yn eu cartref ar brosiectau hanes lleol, llythrennedd a chreadigol. Mae'r ysgol wedi cydweithio'n effeithiol â'r gwasanaeth iechyd, y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau i bobl hŷn i sicrhau llwyddiant y prosiect.

### Deilliannau

Mae disgyblion wedi dysgu am sut i gyfathrebu'n sensitif â'r preswylwyr ac maent wedi datblygu eu medrau cymdeithasol yn dda iawn.

Aeth yr ysgol a'r cartref preswyl ati i arfarnu'r prosiect yn fanwl. Roedd y prosiect o les i bawb yn yr un modd. Fe wnaeth y disgyblion gynorthwyo'r trigolion i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, a gwellodd y disgyblion eu medrau llafar ac ysgrifenedig yn ogystal â datblygu eu cymhelliant a'u hunanhyder.

Mae'r ysgol wedi ymgorffori'r cysylltiad cymunedol yn y cwricwlwm yn effeithiol i greu 'ystafell ddosbarth gymunedol'. Mae'r prosiect yn rhan bwysig o amrywiaeth y strategaethau sydd gan yr ysgol i wella cyflawniad.

Mae disgyblion yn cyflawni'n dda iawn yn yr ysgol. Mae'r dangosydd pwnc craidd ar gyfer cyfnod allweddol 2 yn llawer uwch na'r cyfartaledd i ysgolion tebyg ac mae wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r bwlch ym mherfformiad y disgyblion sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim a'r disgyblion eraill wedi lleihau'n gyson dros y tair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau'r disgyblion mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 yn uwch na'r rhai mewn ysgolion tebyg, ac mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 mewn Saesneg yn llawer uwch na'r lefel mewn ysgolion tebyg ac mae wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf.

## Grŵp 3: Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned

### Astudiaeth achos 3: Datblygu cyngor rhieni

**Ffilm:** Mynd i'r afael â thlodi drwy ymgysylltu â rhieni

### Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Herbert Thompson mewn ardal ddifreintiedig yng Nghaerdydd ac mae gan oddeutu 58% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Roedd y staff yn awyddus i annog rhieni i gymryd rhan weithgar ym mywyd yr ysgol a dangos diddordeb agos yn addysg eu plant. Sefydlwyd cyngor rhieni gydag amcanion i:

- weithio mewn partneriaeth â'r ysgol i greu ysgol sy'n gynhwysol i bob rhiant;
- hyrwyddo partneriaeth rhwng yr ysgol, staff, disgyblion a phob un o'r rhieni;
- datblygu a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cefnogi addysg a lles disgyblion;
- nodi a chynrychioli barn rhieni am addysg a lles disgyblion; ac
- ystyried materion eraill sy'n effeithio ar addysg a lles disgyblion.

Mae'r cyngor yn cynnig ffordd effeithiol o sicrhau bod yr ysgol yn ymgysylltu'n effeithiol â rhieni drwy wrando ar farn y rhieni a sicrhau bod rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### Gweithredu

Mae cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a gwybodaeth am gefndiroedd teuluol y disgyblion yn llywio'r system olrhain disgyblion fel bod yr ysgol yn gallu nodi strategaethau penodol i wella cyflawniad disgyblion. Mae'r ysgol yn casglu ac yn dadansoddi data'n dda iawn sy'n rhoi tystiolaeth bod strategaethau fel cyngor rhieni yn cael effaith ar les a chynnydd academaidd disgyblion.

### Deilliannau

Mae deilliannau cyfnod allweddol 2 ar gyfer y pynciau craidd wedi gwella'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'r dangosydd pwnc craidd yn llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Mae'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim a'r disgyblion nad ydynt yn cael hawlio hynny wedi lleihau dros y pedair blynedd diwethaf ac, erbyn hyn, mae'n is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg yn ogystal â'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Grŵp 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth disgyblion dan anfantais

### Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Llysweri, Casnewydd yn defnyddio dull ysgol-gyfan o gefnogi disgyblion sydd o dan anfantais.

### Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llysweri mewn ardal led-ddiwydiannol ychydig dros filltir i'r de-ddwyrain o ganol Casnewydd. Mae 524 o ddisgyblion amser llawn yn yr ysgol. Maent yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd teuluol ac mae gan oddeutu 25% o'r dysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Mae'r ysgol yn defnyddio nifer o gamau gweithredu cydberthynol ar draws yr ysgol gyfan i fynd i'r afael â thangyflawniad ei disgyblion sydd o dan anfantais. Dangosir rhai o'r camau gweithredu hyn isod.

### Gweithredu

### Pwyslais cryf ar hyfforddiant staff

Mae 'dull ymchwil' ar gyfer strategaethau gwella lle caiff mentrau eu peilota, eu monitro a'u gwerthuso cyn cael eu cyflwyno i'r ysgol gyfan. Mae arwain a/neu weithredu mentrau newydd yn rhan o dargedau rheoli perfformiad athrawon, ac mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros fynd i'r afael ag anfantais.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar athrawon yn cydweithio i wella eu harfer. Mae athrawon yn defnyddio deilliannau prosesau olrhain disgyblion i rannu syniadau a chyd-gynllunio mewn timau yn ystod amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA).

Mae'r uwch dîm yn cydweithio i ddatblygu arfer arloesol. Dangosant elfennau newydd o arfer i staff, er enghraifft drwy addysgu 'gwersi arddangos' gydag athro/athrawes y dosbarth yn arsylwi. Mae gan athro/athrawes y dosbarth amser penodol i ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu, ac mae aelod o'r uwch-dîm yn eu harsylwi eto i roi adborth a chymorth. Mae'r uwch dîm yn monitro cynllunio ac yn casglu enghreifftiau o arfer dda i'w rhannu ymysg y staff.

### Dull ysgol-gyfan ar gyfer darllen

Mae strategaeth ysgol-gyfan ar gyfer darllen dan arweiniad. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi yn y dull ac fe hyfforddir disgyblion hŷn er mwyn iddynt allu cynorthwyo dysgwyr iau i ddarllen. Mae'r cysondeb hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau darllen y disgyblion.

### Gwella lles emosiynol disgyblion drwy SEAL (Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu)

Mae'r ysgol wedi nodi bod angen i lawer o'i disgyblion sydd o dan anfantais ddatblygu eu lles emosiynol. Cyflwynodd y dirprwy bennaeth Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL) ar gyfer yr ysgol gyfan i gefnogi'r disgyblion hyn.

Gyda chymorth yr awdurdod lleol, hyfforddir yr holl staff am ddulliau SEAL a strategaethau penodol fel 'amser cylch' a 'stopio, meddwl, gwneud'. Mae gweithgareddau SEAL yn rhan o raglen dreigl dwy flynedd o addysg bersonol a chymdeithasol a gwasanaethau boreol, er mwyn i bob disgybl gael profiad o SEAL.

Defnyddiwyd arian Rhagori hefyd i dalu am grwpiau ar wahân ychwanegol ar gyfer disgyblion dan anfantais sy'n arbennig o agored i niwed a fyddai'n elwa fwyaf ar waith ehangach gan SEAL. Dewisir grwpiau bychain o ddisgyblion ar gyfer y cymorth hwn ac fe'u nodir drwy ddefnyddio prawf deallusrwydd emosiynol SCYA. Caiff y disgyblion eu grwpio wedyn yn unol â'u hangen, er enghraifft medrau cymdeithasol, rheoli tymer, a hunan-barch. Gweithiodd yr athrawon gyda'r disgyblion hyn gan ddefnyddio'r deunydd SEAL ychwanegol yn ogystal â chyfleusterau'r ysgol fel yr Ysgol Goedwig. Mae gan yr ysgol 'Ystafell Gyfeillgarwch' benodedig hefyd sydd wedi'i dylunio a'i haddurno gan ddisgyblion i fod yn 'noddfa' i ddisgyblion pan fyddant yn teimlo'n agored i niwed.

Caiff disgyblion eu hailasesu ar ddiwedd y cyfnod yn erbyn prawf deallusrwydd emosiynol SCYA i weld a ydynt wedi gwneud cynnydd.

**Datblygu medrau arwain disgyblion**

Mae'r ysgol yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau arwain disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgwyddo cyfrifoldeb am drefnu drama'r ysgol a digwyddiadau a noddir gan yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar ddisgyblion sydd o dan anfantais ac mae'n cyfrannu'n dda at godi eu hunan-barch a'u dyheadau.

**Disgyblaeth bendant**

Mae strategaeth ysgol-gyfan ar gyfer disgyblaeth bendant sy'n pennu disgwyliadau cyson ar gyfer ymddygiad. Mae disgyblion sy'n ymddwyn yn wael iawn yn mynd i 'glwb amser cinio' i ystyried eu hymddygiad. Mae clwb amser cinio yn atgyfnerthu'r syniad o ddisgyblaeth gadarnhaol.

**Deilliannau**

Gyda'i gilydd, mae'r strategaethau hyn yn rhoi dull ysgol-gyfan sy'n cael effaith sylweddol ar ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Llysweri. Mae'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim a'r disgyblion eraill yn llawer culach na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mewn ysgolion tebyg.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae o leiaf 88% o ddisgyblion wedi cyflawni lefel 4 mewn Saesneg. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae nifer y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 mewn Saesneg yn dangos tuedd o wella dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2009/10, cyflawnodd 43% o ddisgyblion Blwyddyn 6 o leiaf lefel 5 mewn Saesneg. Mae hyn 15 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg a 15 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Mae'r ysgol wedi dadansoddi'r nifer a gyfeiriwyd at y clwb amser cinio yn erbyn prawf deallusrwydd emosiynol SCYA a nododd y bu cynnydd mewn ymwybyddiaeth gymdeithasol a gostyngiad mewn ymddygiad ymosodol dros y cyfnod hwn. Mae nifer y disgyblion a gyfeiriwyd at y clwb amser cinio wedi gostwng yn sylweddol.

# HYRWYDDO ARFER DDA WRTH FYND I'R AFAEL Â THLODI AC ANFANTAIS

## Beth rydym ni'n ei wybod am ddisgyblion dan anfantais?

### Holiadur i staff

Defnyddiwch Ran un o'r holiadur hwn cyn yr hyfforddiant i ganfod faint ydych chi'n ei ddeall am effeithiau tlodi ac anfantais ar ddisgyblion. Dylech lenwi rhan dau yr holiadur ar ôl yr hyfforddiant.

**Rhan Un: Ticiwch y blwch sy'n adlewyrchu i ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiadau.**

| | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Cytuno weithiau | Ddim yn cytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gen i ddealltwriaeth glir o'r cysylltiad rhwng tlodi a lefelau cyflawniad addysgol isel disgyblion. | | | | | |
| Mae disgyblion dan anfantais yn cynnwys grwpiau gwahanol o ddisgyblion, fel y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim, y rhai o grwpiau lleiafrifol, y rhai mewn teuluoedd ar incwm isel, plant sy'n derbyn gofal a phlant teithwyr. | | | | | |
| Rwy'n deall y gwahaniaeth rhwng disgyblion dan anfantais a disgyblion sy'n tangyflawni. | | | | | |
| Rwy'n gwybod sut i nodi disgyblion dan anfantais yn fy nosbarth. | | | | | |
| Rwy'n gwybod pa mor dda y mae disgyblion dan anfantais yn cyflawni yn fy nosbarth o gymharu â'u cyfoedion nad ydynt dan anfantais. | | | | | |
| Rwy'n gwybod pa mor dda y mae disgyblion dan anfantais yn cyflawni yn ein hysgol o gymharu â disgyblion dan anfantais mewn ysgolion eraill. | | | | | |
| Rwy'n deall dylanwad disgwyliadau isel, hunan-barch isel a dyheadau isel ar ddisgyblion dan anfantais. | | | | | |
| Rwy'n gwybod gwerth dysgu y tu allan i oriau i godi safonau disgyblion dan anfantais a gwella eu lles. | | | | | |
| Rwy'n deall pwysigrwydd gweithio gyda theuluoedd, y gymuned a gwasanaethau i gynorthwyo disgyblion dan anfantais. | | | | | |
| Byddaf yn arfarnu'n rheolaidd y strategaethau rwy'n eu defnyddio i wella cyflawniad a dyheadau disgyblion dan anfantais, ac yn rhannu fy nghanfyddiadau gyda rhai eraill. | | | | | |

**Rhan Dau (i'w llenwi ar ôl rhan gyntaf yr hyfforddiant)**
**Ticiwch y blwch sy'n adlewyrchu i ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiadau.**

| | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Cytuno weithiau** | **Ddim yn cytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gen i ddealltwriaeth glir o'r cysylltiad rhwng tlodi a lefelau cyflawniad addysgol isel disgyblion. | | | | | |
| Mae disgyblion dan anfantais yn cynnwys grwpiau gwahanol o ddisgyblion, fel y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim, y rhai o grwpiau lleiafrifol, y rhai mewn teuluoedd ar incwm isel, plant sy'n derbyn gofal a phlant teithwyr. | | | | | |
| Rwy'n deall y gwahaniaeth rhwng disgyblion dan anfantais a disgyblion sy'n tangyflawni. | | | | | |
| Rwy'n gwybod sut i nodi disgyblion dan anfantais yn fy nosbarth. | | | | | |
| Rwy'n gwybod pa mor dda y mae disgyblion dan anfantais yn cyflawni yn ein hysgol o gymharu â disgyblion dan anfantais mewn ysgolion eraill. | | | | | |
| Rwy'n deall dylanwad disgwyliadau isel, hunan-barch isel a dyheadau isel ar ddisgyblion dan anfantais. | | | | | |
| Rwy'n gwybod gwerth dysgu y tu allan i oriau i godi safonau disgyblion dan anfantais a gwella eu lles. | | | | | |
| Rwy'n deall pwysigrwydd gweithio gyda theuluoedd, y gymuned a gwasanaethau i gynorthwyo disgyblion dan anfantais. | | | | | |
| Byddaf yn arfarnu'n rheolaidd y strategaethau rwy'n eu defnyddio i wella cyflawniad a dyheadau disgyblion dan anfantais, ac yn rhannu fy nghanfyddiadau gyda rhai eraill. | | | | | |

## Grŵp 1: Nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion dan anfantais

### Astudiaeth achos 2: 'Prosiect Awyr Las' yng nghlwstwr Dyffryn Aman yn Sir Gaerfyrddin

### Cyd-destun

Mae disgyblion o'r clwstwr o ysgolion cynradd yn Nyffryn Aman yn symud ymlaen i'w cyfnod dysgu nesaf yn 11 mlwydd oed pan fyddant yn dechrau yn Ysgol Gyfun Dyffryn Aman. Mae pob un o'r ysgolion cynradd yn y clwstwr yn darparu addysg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn bennaf.

### Strategaeth

Mae'r cydlynydd ar gyfer y disgyblion mwy abl a dawnus yn yr ysgol uwchradd yn arwain prosiect i rannu gwybodaeth a darparu rhaglen o weithgareddau heriol ar gyfer disgyblion. Cynorthwyir y cydlynydd gan staff o'r ysgolion cynradd a darparwyr arbenigol.

### Gweithredu

Yn ystod tymor yr haf bob blwyddyn, mae pob ysgol gynradd yn y clwstwr yn defnyddio profion safonol, arsylwadau athrawon a thrafodaethau staff i nodi'r 10% mwyaf abl o'i disgyblion ym Mlwyddyn 5, a allai gynnwys disgyblion dan anfantais. Mae'r disgyblion ym Mlwyddyn 6 a Blwyddyn 7 yn cymryd rhan mewn rhaglen o weithgareddau heriol, sy'n cynnwys adeiladu tîm, datblygu medrau arweinyddiaeth, ymchwiliadau mathemategol, gweithdai drama ac ymweliad preswyl. Nod pob un ohonynt yw gwella medrau meddwl beirniadol a medrau dysgu lefel uwch y disgyblion mwy abl, ac annog datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol hefyd.

Mae athrawon yn sicrhau cefnogaeth y rhieni trwy gyfathrebu da trwy lythyr a chyswllt personol. Caiff llwyddiant y prosiect ei fonitro trwy holiaduron disgyblion a dadansoddi profion medrau safonol ym Mlwyddyn 7. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion trwy gydol yr ysgolion cynradd ac i mewn i'r ysgol uwchradd gan ddefnyddio'r un system codau lliw.

### Deilliannau

Mae perthnasoedd cadarnhaol a chadarn iawn rhwng yr ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd yn y clwstwr. Ceir cysondeb rhwng yr ysgolion cynradd o ran y modd y maent yn nodi disgyblion mwy abl a dawnus, yn ogystal â defnydd cyson o system olrhain electronig gytûn gan bob ysgol, sy'n golygu bod modd trosglwyddo data a monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, bu gwelliant ym medrau dysgu'r disgyblion, yn enwedig llefaredd, gwrando a meddwl. Mae disgyblion hefyd wedi datblygu eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol ac maent yn ymdopi'n dda â throsglwyddo. Mae data'n cael ei drosglwyddo'n effeithiol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, gan roi gwybodaeth gywir i athrawon. Mae'r wybodaeth hon yn eu helpu i sefydlu disgwyliadau uchel o ddisgyblion mwy abl a dawnus.

## Grŵp 3: Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned

### Astudiaeth achos 2: Effaith partneriaeth rhwng ysgol gynradd a chartref gofal preswyl i'r henoed

### Cyd-destun

Ysgol gymuned ar gyrion Aberdâr yw Ysgol Gynradd Blaengwawr. Mae gan oddeutu 34% o'i disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Creu cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a chartref gofal preswyl i'r henoed oedd y nod ar ôl i breswylwyr fynegi pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol ger eu cartref. Gwnaethant hyn drwy gynllunio prosiect ar y cyd.

### Gweithredu

Mae disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn gweithio gyda'r preswylwyr yn eu cartref ar brosiectau hanes lleol, llythrennedd a chreadigol. Mae'r ysgol wedi cydweithio'n effeithiol â'r gwasanaeth iechyd, y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau i bobl hŷn i sicrhau llwyddiant y prosiect.

### Deilliannau

Mae disgyblion wedi dysgu am sut i gyfathrebu'n sensitif â'r preswylwyr ac maent wedi datblygu eu medrau cymdeithasol yn dda iawn.

Aeth yr ysgol a'r cartref preswyl ati i arfarnu'r prosiect yn fanwl. Roedd y prosiect o les i bawb yn yr un modd. Fe wnaeth y disgyblion gynorthwyo'r trigolion i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, a gwellodd y disgyblion eu medrau llafar ac ysgrifenedig yn ogystal â datblygu eu cymhelliant a'u hunanhyder.

Mae'r ysgol wedi ymgorffori'r cysylltiad cymunedol yn y cwricwlwm yn effeithiol i greu 'ystafell ddosbarth gymunedol'. Mae'r prosiect yn rhan bwysig o amrywiaeth y strategaethau sydd gan yr ysgol i wella cyflawniad.

Mae disgyblion yn cyflawni'n dda iawn yn yr ysgol. Mae'r dangosydd pwnc craidd ar gyfer cyfnod allweddol 2 yn llawer uwch na'r cyfartaledd i ysgolion tebyg ac mae wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r bwlch ym mherfformiad y disgyblion sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim a'r disgyblion eraill wedi lleihau'n gyson dros y tair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau'r disgyblion mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 yn uwch na'r rhai mewn ysgolion tebyg, ac mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 mewn Saesneg yn llawer uwch na'r lefel mewn ysgolion tebyg ac mae wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf.

## Grŵp 3: Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned

### Astudiaeth achos 3: Datblygu cyngor rhieni

### Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Herbert Thompson mewn ardal ddifreintiedig yng Nghaerdydd ac mae gan oddeutu 58% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Roedd y staff yn awyddus i annog rhieni i gymryd rhan weithgar ym mywyd yr ysgol a dangos diddordeb agos yn addysg eu plant. Sefydlwyd cyngor rhieni gydag amcanion i:

- weithio mewn partneriaeth â'r ysgol i greu ysgol sy'n gynhwysol i bob rhiant;
- hyrwyddo partneriaeth rhwng yr ysgol, staff, disgyblion a phob un o'r rhieni;
- datblygu a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cefnogi addysg a lles disgyblion;
- nodi a chynrychioli barn rhieni am addysg a lles disgyblion; ac
- ystyried materion eraill sy'n effeithio ar addysg a lles disgyblion.

Mae'r cyngor yn cynnig ffordd effeithiol o sicrhau bod yr ysgol yn ymgysylltu'n effeithiol â rhieni drwy wrando ar farn y rhieni a sicrhau bod rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### Gweithredu

Mae cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a gwybodaeth am gefndiroedd teuluol y disgyblion yn llywio'r system olrhain disgyblion fel bod yr ysgol yn gallu nodi strategaethau penodol i wella cyflawniad disgyblion. Mae'r ysgol yn casglu ac yn dadansoddi data'n dda iawn sy'n rhoi tystiolaeth bod strategaethau fel cyngor rhieni yn cael effaith ar les a chynnydd academaidd disgyblion.

### Deilliannau

Mae deilliannau cyfnod allweddol 2 ar gyfer y pynciau craidd wedi gwella'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'r dangosydd pwnc craidd yn llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Mae'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim a'r disgyblion nad ydynt yn cael hawlio hynny wedi lleihau dros y pedair blynedd diwethaf ac, erbyn hyn, mae'n is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg yn ogystal â'r cyfartaledd cenedlaethol.

# Grŵp 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth disgyblion dan anfantais

## Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Llysweri, Casnewydd yn defnyddio dull ysgol-gyfan o gefnogi disgyblion sydd o dan anfantais.

### Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llysweri mewn ardal led-ddiwydiannol ychydig dros filltir i'r de-ddwyrain o ganol Casnewydd. Mae 524 o ddisgyblion amser llawn yn yr ysgol. Maent yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd teuluol ac mae gan oddeutu 25% o'r dysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Mae'r ysgol yn defnyddio nifer o gamau gweithredu cydberthynol ar draws yr ysgol gyfan i fynd i'r afael â thangyflawniad ei disgyblion sydd o dan anfantais. Dangosir rhai o'r camau gweithredu hyn isod.

### Gweithredu

### Pwyslais cryf ar hyfforddiant staff

Mae 'dull ymchwil' ar gyfer strategaethau gwella lle caiff mentrau eu peilota, eu monitro a'u gwerthuso cyn cael eu cyflwyno i'r ysgol gyfan. Mae arwain a/neu weithredu mentrau newydd yn rhan o dargedau rheoli perfformiad athrawon, ac mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros fynd i'r afael ag anfantais.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar athrawon yn cydweithio i wella eu harfer. Mae athrawon yn defnyddio deilliannau prosesau olrhain disgyblion i rannu syniadau a chyd-gynllunio mewn timau yn ystod amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA).

Mae'r uwch dîm yn cydweithio i ddatblygu arfer arloesol. Dangosant elfennau newydd o arfer i staff, er enghraifft drwy addysgu 'gwersi arddangos' gydag athro/athrawes y dosbarth yn arsylwi. Mae gan athro/athrawes y dosbarth amser penodol i ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu, ac mae aelod o'r uwch-dîm yn eu harsylwi eto i roi adborth a chymorth. Mae'r uwch dîm yn monitro cynllunio ac yn casglu enghreifftiau o arfer dda i'w rhannu ymysg y staff.

### Dull ysgol-gyfan ar gyfer darllen

Mae strategaeth ysgol-gyfan ar gyfer darllen dan arweiniad. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi yn y dull ac fe hyfforddir disgyblion hŷn er mwyn iddynt allu cynorthwyo dysgwyr iau i ddarllen. Mae'r cysondeb hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau darllen y disgyblion.

### Gwella lles emosiynol disgyblion drwy SEAL (Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu)

Mae'r ysgol wedi nodi bod angen i lawer o'i disgyblion sydd o dan anfantais ddatblygu eu lles emosiynol. Cyflwynodd y dirprwy bennaeth Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL) ar gyfer yr ysgol gyfan i gefnogi'r disgyblion hyn.

Gyda chymorth yr awdurdod lleol, hyfforddir yr holl staff am ddulliau SEAL a strategaethau penodol fel 'amser cylch' a 'stopio, meddwl, gwneud'. Mae gweithgareddau SEAL yn rhan o raglen dreigl dwy flynedd o addysg bersonol a chymdeithasol a gwasanaethau boreol, er mwyn i bob disgybl gael profiad o SEAL.

Defnyddiwyd arian Rhagori hefyd i dalu am grwpiau ar wahân ychwanegol ar gyfer disgyblion dan anfantais sy'n arbennig o agored i niwed a fyddai'n elwa fwyaf ar waith ehangach gan SEAL. Dewisir grwpiau bychain o ddisgyblion ar gyfer y cymorth hwn ac fe'u nodir drwy ddefnyddio prawf deallusrwydd emosiynol SCYA. Caiff y disgyblion eu grwpio wedyn yn unol â'u hangen, er enghraifft medrau cymdeithasol, rheoli tymer, a hunan-barch. Gweithiodd yr athrawon gyda'r disgyblion hyn gan ddefnyddio'r deunydd SEAL ychwanegol yn ogystal â chyfleusterau'r ysgol fel yr Ysgol Goedwig. Mae gan yr ysgol 'Ystafell Gyfeillgarwch' benodedig hefyd sydd wedi'i dylunio a'i haddurno gan ddisgyblion i fod yn 'noddfa' i ddisgyblion pan fyddant yn teimlo'n agored i niwed.

Caiff disgyblion eu hailasesu ar ddiwedd y cyfnod yn erbyn prawf deallusrwydd emosiynol SCYA i weld a ydynt wedi gwneud cynnydd.

**Datblygu medrau arwain disgyblion**

Mae'r ysgol yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau arwain disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgwyddo cyfrifoldeb am drefnu drama'r ysgol a digwyddiadau a noddir gan yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar ddisgyblion sydd o dan anfantais ac mae'n cyfrannu'n dda at godi eu hunan-barch a'u dyheadau.

**Disgyblaeth bendant**

Mae strategaeth ysgol-gyfan ar gyfer disgyblaeth bendant sy'n pennu disgwyliadau cyson ar gyfer ymddygiad. Mae disgyblion sy'n ymddwyn yn wael iawn yn mynd i 'glwb amser cinio' i ystyried eu hymddygiad. Mae clwb amser cinio yn atgyfnerthu'r syniad o ddisgyblaeth gadarnhaol.

**Deilliannau**

Gyda'i gilydd, mae'r strategaethau hyn yn rhoi dull ysgol-gyfan sy'n cael effaith sylweddol ar ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Llysweri. Mae'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim a'r disgyblion eraill yn llawer culach na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mewn ysgolion tebyg.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae o leiaf 88% o ddisgyblion wedi cyflawni lefel 4 mewn Saesneg. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae nifer y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 mewn Saesneg yn dangos tuedd o wella dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2009/10, cyflawnodd 43% o ddisgyblion Blwyddyn 6 o leiaf lefel 5 mewn Saesneg. Mae hyn 15 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg a 15 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Mae'r ysgol wedi dadansoddi'r nifer a gyfeiriwyd at y clwb amser cinio yn erbyn prawf deallusrwydd emosiynol SCYA a nododd y bu cynnydd mewn ymwybyddiaeth gymdeithasol a gostyngiad mewn ymddygiad ymosodol dros y cyfnod hwn. Mae nifer y disgyblion a gyfeiriwyd at y clwb amser cinio wedi gostwng yn sylweddol.

